# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Ionawr 2019

Amser: 09.04 - 15.10

# WRB(20)

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)<br>Ronnie Alexander<br>Trevor Reaney<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts |
| Swyddogion: | Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol<br>Rebecca Hardwicke, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau<br>Martin Jennings, Y Gwasanaeth Ymchwil<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Ymgysylltu |
| Ysgrifenyddiaeth: | Lleu Williams (Clerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfod.

1.2. Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2018.

1.3. Cydymdeimlodd y Bwrdd â theulu, ffrindiau a chydweithwyr Steffan Lewis, y cyn Aelod Cynulliad, yn eu profedigaeth. Diolchodd y Bwrdd i:

- dîm Cymorth Busnes yr Aelodau am y cymorth a'r cyngor y maent yn parhau i'w gynnig i deulu Steffan a'i staff cymorth;
- yr ysgrifenyddiaeth am roi gwybod i'r Bwrdd am y materion sy'n codi.

1.4. Nododd y Bwrdd y darpariaethau ar gyfer dirwyn swyddfa Steffan Lewis i ben.

1.5. Cynhaliodd y Bwrdd ei adolygiad blynyddol o'r holl geisiadau am dreuliau eithriadol yr oedd wedi'u cymeradwyo'n flaenorol ac, o ystyried bod yr Aelodau wedi'u sicrhau nad oedd eu sefyllfa wedi newid ers i'r Bwrdd gymeradwyo'r taliadau ychwanegol gyntaf, cytunodd y dylent barhau i gael y taliadau ychwanegol. Nododd y Bwrdd y bydd nifer a maint y taliadau eithriadol yn 2018-19 yn cael eu cyhoeddi yn ei adroddiad blynyddol.

1.6. Cytunodd y Bwrdd i ysgrifennu at yr holl staff cymorth sy'n gweithio i Aelodau annibynnol y Cynulliad i ofyn iddynt ffurfioli trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r Bwrdd.

**Camau i'w cymryd:**

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn:

- cyhoeddi nodyn o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd;
- rhoi gwybod i'r holl Aelodau sy'n cael treuliau eithriadol am benderfyniad y Bwrdd;
- ysgrifennu at staff cymorth Aelodau annibynnol i ffurfioli trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r Bwrdd.

## 2 Eitem i benderfynu yn ei chylch: Adolygiad o'r cymorth staffio i'r Aelodau a'r gweithdrefnau disgyblu a chwyno: Trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad

*Adolygiad o'r cymorth staffio i'r Aelodau*

2.1 Trafododd y Bwrdd yr ymatebion a ddaeth i law ynghylch ei gynigion i ddiwygio'r trefniadau ariannu i gyflogi aelodau o'r teulu (cynigion un a dau yn yr ymgynghoriad).

2.2. Ar ôl ystyried yr ymatebion ochr yn ochr ag amcanion statudol y Bwrdd, gan wneud hynny'n ofalus ac â meddwl agored, cytunodd y Bwrdd i ddiwygio'i gynigion gwreiddiol mewn perthynas â'r trefniadau ariannu ar gyfer cyflogi aelodau o'r teulu.

2.3. Cytunodd y Bwrdd i ofyn am ragor o gyngor cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith o ran y trefniadau ariannu i gyflogi aelodau o'r teulu.

2.4. Trafododd y Bwrdd yr ymatebion a ddaeth i law mewn perthynas â'i gynigion i ddiwygio telerau ac amodau staff cymorth (cynigion tri, pedwar a phump) a chytunodd i gyflwyno'r newidiadau ganlyn o 1 Ebrill 2019 ymlaen

- addasu cyflogau staff cymorth ym mis Ebrill bob blwyddyn yn ôl y newid yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)
- cyflwyno diwrnodau braint ar gyfer staff cymorth;
- cyflwyno polisi newydd i ganiatáu i staff cymorth fedru hawlio absenoldeb tosturiol.

2.5 Cytunodd y Bwrdd y dylai'r ysgrifenyddiaeth gydweithio ar ei ran â chynrychiolwyr staff cymorth i sicrhau bod y polisi absenoldeb tosturiol yn addas i'r diben.

**Camau i'w cymryd**

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn:

- ceisio rhagor o gyngor ynghylch penderfyniad y Bwrdd i gyflwyno’r newidiadau arfaethedig i gynigion un a dau;
- gweithio gyda staff cymorth i ddatblygu'r polisi absenoldeb tosturiol;
- rhoi gwybod i'r Aelodau a'r staff cymorth am y newidiadau arfaethedig unwaith y bydd penderfyniad y Bwrdd yn derfynol;
- paratoi Penderfyniad diwygiedig i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2019.

*Adolygiad o'r Gweithdrefnau Disgyblu a Chwyno*

2.6 Trafododd y Bwrdd yr ymatebion a ddaeth i law mewn perthynas â chynigion chwech a saith a chytunodd i ddiwygio'r ddwy weithdrefn i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â pholisi Urddas a Pharch y Cynulliad.

2.7 Cytunodd y Bwrdd y dylai'r ysgrifenyddiaeth gydweithio â chynrychiolwyr staff cymorth ar ei ran i sicrhau bod y gweithdrefnau'n addas i'r diben.

**Camau i’w cymryd**

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn:

- gweithio gyda staff cymorth i ddatblygu'r gweithdrefnau;
- rhoi gwybod i'r Aelodau a'r staff cymorth am y newidiadau arfaethedig unwaith y bydd penderfyniad y Bwrdd yn derfynol.

## 3 Eitem i'w thrafod: Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad: Ailystyriaeth o ran un.

3.1 Trafododd y Bwrdd y darpariaethau yn y penodau hynny yn y Penderfyniad sy’n ymdrin â gwariant ar lety preswyl, costau teithio a chostau swyddfa'r Aelodau. Mae’r rhain yn dod o dan ran un o’i adolygiad.

3.2 Bydd y Bwrdd yn ailystyried y materion a godwyd yn ei gyfarfod nesaf

## 4 Eitem i'w thrafod: Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad: Ail drafodaeth ar ran un (parhad)

4.1 Fel eitem 3.

## 5 Eitem i benderfynu yn ei chylch: Adolygiad blynyddol o Benderfyniad 2019-20

*Cyflogau staff cymorth*

5.1 Cyfeiriodd y Bwrdd at ei benderfyniad cynharach (eitem dau) i addasu cyflogau staff cymorth ym mis Ebrill bob blwyddyn yn ôl y newid yn ôl enillion gros canolrifol yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer swyddi cyflogedig amser llawn yng Nghymru.

Nododd y Bwrdd y byddai hyn yn sicrhau cysondeb rhwng y modd y caiff cyflogau staff cymorth a’r Aelodau eu mynegeio.

5.2 O 1 Ebrill 2019 ymlaen, bydd cyflogau’r Aelodau a’u staff cymorth yn codi 1.2 y cant.

5.3 Gan y byddai’r newid yn weithredol o 1 Ebrill 2019 ymlaen, cytunodd y Bwrdd i beidio â chynnig unrhyw newidiadau ychwanegol i gyflogau staff cymorth yn 2019-20. Bydd y cyflogau diwygiedig yn rhan o’r Penderfyniad ar gyfer 2019-20.

*Lwfans Costau Swyddfa*

5.4 Trafododd y Bwrdd y ffactorau amrywiol sy'n effeithio ar gostau swyddfa’r Aelodau.

5.5 Cytunodd y Bwrdd fod y swm y mae’r Aelodau’n ei wario’n dangos bod y lwfans presennol yn ddigonol ac, o ganlyniad, penderfynodd ei adael fel y mae, sef £18,260 a £4,912, yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20

*Gwariant ar Lety Preswyl*

5.6 Trafododd y Bwrdd y ffactorau amrywiol sy'n effeithio ar y swm y mae’r Aelodau’n ei wario ar lety preswyl

5.7 Nododd y Bwrdd nad yw’r lwfans ardal allanol wedi newid ers 2017-18.

5.8 Cytunodd y Bwrdd i ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Medi 2018, sef 2.4 y cant, fel cyfradd i godi'r lwfans ardal allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn dilyn yr un egwyddorion ag y mae'r Bwrdd wedi eu defnyddio i godi lwfansau eraill yn y gorffennol. Cytunodd y Bwrdd i gynnig cynnydd o 2.4 y cant yn y lwfans.

5.9 Cytunodd y Bwrdd mai’r uchafswm ar gyfer gwaith trwsio hanfodol fydd £882 y flwyddyn a’r uchafswm ar gyfer costau rhent Aelodau a chanddynt ddibynyddion - dim ond Aelodau y mae eu prif gartref yn yr ardal allanol sy’n cael hawlio’r lwfans hwn.

5.10 Nododd y Bwrdd nad yw’r lwfans ardal ryngol wedi newid ers ei gyflwyno.

5.11 Er mwyn adlewyrchu'r angen cynyddol i Aelodau  aros dros nos ym Mae Caerdydd ers i'r lwfans ardal ryngol gael ei gyflwyno gyntaf yn 2012, cytunodd y Bwrdd i gynnig cynyddu'r lwfans i £6,840 y flwyddyn.

5.12 Cytunodd y Bwrdd hefyd i gynnig newid geiriad y ddarpariaeth yn unol â hynny i adlewyrchu’r ffaith bod modd defnyddio’r lwfans droeon.

*Ymgynghoriad*

5.13 Cytunodd y Bwrdd i ymgynghori ynghylch yr holl gynigion uchod. Y dyddiad cau fyddai 12 Mawrth 2019.

5.14 Bydd y Bwrdd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ei gyfarfod ym mis Mawrth

**Camau i’w cymryd:**

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn:

– paratoi Penderfyniad diwygiedig i adlewyrchu'r newidiadau yng nghyflogau staff cymorth;

- cyhoeddi a hyrwyddo'r ymgynghoriad;
- paratoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w hystyried yng nghyfarfod mis Mawrth.

## 6 Papur(au) i'w nodi

6.1 Nododd y Bwrdd yr adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a chytunodd i ystyried y materion a godwyd fel rhan o'i adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.